

<b>CYFARFOD</b>	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
<b>DYDDIAD</b>	27 Hydref 2022
<b>TEITL</b>	Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau 2022/23
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	I'r Pwyllgor flaenoriaethu eitemau ar gyfer y cyfarfodydd sydd i ddod a mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig.
<b>AWDUR</b>	Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 28 Medi 2022.
2. Ers y cyfarfod yna, ychwanegwyd yr eitem 'Cynllun Gwella Hawliau Tramwy' i raglen y cyfarfod hwn. Yn ogystal, derbyniwyd cadarnhad ni fyddai'r 'Cynllun Llesiant' yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod yma. Mae hyn o ganlyniad i ail-drefnu cyfarfodydd yn dilyn cytundeb ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, ar sail cyngor a dderbyniwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i ohirio pob cyfarfod ffurfiol ar draws yr holl awdurdodau lleol am bythefnos yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi Y Frenhines Elizabeth II.
3. Gwnaed cais i'r Pwyllgor ystyried ail-raglennu'r eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ar 19 Ionawr 2023.
4. Fel y gwelwch yn yr Atodiad i'r adroddiad, mae pedair eitem eisoes wedi eu rhaglennu ar gyfer cyfarfod mis Ionawr. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Nid oedd hynny yn bosib ar yr achlysur yma.
5. Ar hyn o bryd, dwy eitem sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mawrth 2023. Un o'r eitemau yma yw 'Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn'. Efallai y byddai'n opsiwn i gyfuno'r ddau fater a'u hystyried fel un eitem yn y cyfarfod yna.
6. Rwyf wedi gofyn am gadarnhad o amserlen mabwysiadu'r Cynllun Llesiant gan Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, er mwyn i'r Pwyllgor gymryd yr amserlen i ystyriaeth wrth flaenoriaethu eitemau. Byddaf yn adrodd yn y cyfarfod ar ymateb y Rheolwr Rhaglen.
7. Ystyriaeth arall i'r Pwyllgor wrth flaenoriaethau eitemau, fydd yr hyn sydd wedi deillio o'r drafodaeth yn y Pwyllgor ar yr eitem 'Datblygiadau cenedlaethol a lleol yng nghyswllt rheoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau ar allu pobl leol i gael mynediad i gartrefi yn eu cymuned a'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig'. Nodir yn yr adroddiad y bwriad i gyflwyno adroddiad pellach yn edrych ar yr opsiynau ardaloedd posib lle gellir tystiolaethu'r defnydd o gyfarwyddyd Erthygl i gyfarfod Ionawr neu Mawrth 2023.
8. **Gofynnir i'r Pwyllgor flaenoriaethu eitemau ar gyfer y cyfarfodydd sydd i ddod a mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig.**

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2022/23

<b>28/09/2022</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad Blynyddol 2021/22 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn</li> <li>• Biniau Halen a graeanu strydoedd cefn</li> <li>• Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus</li> </ul>
<b>27/10/2022</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygiadau cenedlaethol a lleol yng nghyswllt rheoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau ar allu pobl leol i gael mynediad i gartrefi yn eu cymuned a'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig</li> <li>• Cynllun Gwella Hawliau Tramwy</li> <li>• Strategaeth Llifogydd Lleol</li> </ul>
<b>19/01/2023</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn</li> <li>• Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig</li> <li>• Torri Gwair a Chynnal Tiroedd</li> <li>• Gwasanaeth Casglu Gwastraff (gan gynnwys gorwariant a gwireddu arbedion)</li> </ul>
<b>09/03/2023</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn</li> <li>• Glendid Stryd</li> </ul>

Eitemau i'w rhaglennu:

Cynllun Llesiant

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur